Llawlyfr ar gyfer yr Adolygiad o Brentisiaethau Gradd yng Nghymru

Fersiwn drafft ar gyfer ymgynghori

Awst

Cyflwyniad

1 Mae'r llawlyfr hwn yn esbonio proses adolygu QAA ar gyfer Prentisiaethau Gradd yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2020-21. Mae'r adolygiad yn ymwneud â Phrentisiaethau Gradd a ariennir drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arian ar gyfer Prentisiaethau Gradd wedi'i gynnig yn y tri maes canlynol sydd â blaenoriaeth: Sgiliau Digidol, Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch. Cynigiwyd cyfle i gael yr arian hwn ar sail peilot o flwyddyn academaidd 2018-19 ymlaen. Gallwch weld rhagor o fanylion am y Prentisiaethau Gradd hyn ar wefan CCAUC.[1]

2 Lluniwyd yr Adolygiad o Brentisiaethau Gradd i fod yn adolygiad datblygiadol sy'n canolbwyntio ar y ffordd y mae darparwyr addysg uwch yn darparu'r rhaglen, gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith. Y nod yw bod canlyniad yr adolygiad hwn yn hysbysu polisïau a blaenoriaethau'r dyfodol, a bydd yn cyfrannu at werthusiad Llywodraeth Cymru o'r cynllun peilot Prentisiaethau Gradd a fydd yn asesu manteision a chanlyniadau bwriadedig y rhaglenni hyn i gyflogwyr ac unigolion.

3 Bwriad y dull adolygu hwn gan QAA yw darparu gwybodaeth am y ffordd y mae

hyblyg. Bydd QAA yn gweithio gyda darparwyr, partneriaid a chyflogwyr i sicrhau bod timau adolygu'n gweithredu yn unol â'r gweithdrefnau a weithredir gan y llywodraethau hynny, a bydd yn monitro'r cyfarwyddyd iechyd cyhoeddus swyddogol yn agos.[3] Mae posibilrwydd y gallai wneud rhywfaint, os nad y cwbl, o'i weithgareddau adolygu ar ffurf rithwir. Os digwydd hynny,

cm 1.0 0 1 72.025 75

¶ Anfonir adroddiad drafft at y darparwr arweiniol i dderbyn sylwadau am ei gywirdeb ffeithiol. Bydd yn cynnwys argymhellion i'r darparwyr arweiniol y wella'r rheolaeth ar eu darpariaeth Prentisiaeth Gradd, a bydd yn pennu arferion da lle mae agweddau o'r rheolaeth ar y ddarpariaeth yn gwneud cyfraniad arbennig o bositif i brofiad y myfyrwyr.

¶ Ni fydd yr adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi ond bydd wedi'i rannu gyda CCAUC a'r darparwr arweiniol. Disgwylir y bydd darparwyr arweiniol yn rhannu'r adroddiad gyda'u partneriaid.

¶ Bydd CCAUC yn cyhoeddi adroddiad trosolwg sy'n tynnu adroddiadau'r adolygiadau unigol ynghyd a bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i hysbysu'r gwerthusiad a wneir gan Lywodraeth Cymru.

Pwyntiau cyfeirio allanol

11 Y prif bwynt cyfeirio sydd i gael ei ddefnyddio yn yr adolygiad hwn yw'r Datganiad o Nodweddion ar gyfer Addysg Uwch mewn Prentisiaethau a gyhoeddir gan QAA.[4] Mae'r Datganiad o Nodweddion yn disgrifio nodweddion arbennig y cymwysterau yn nhermau eu pwrpas, eu nodweddion cyffredinol a'u canlyniadau generig. Hefyd, mae'r Datganiad o Nodweddion yn ategu'r wybodaeth sydd yn y *Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch cyrff dyfarnu graddau'r DU (FHEQ)*, ac yn rhoi'r wybodaeth honno yn ei chyd-destun. Trwy hynny mae'n darparu rhagor o fanylion am nodweddion arbennig y cymwysterau hyn ar lefelau penodol ac, felly, dylid darllen y datganiad hwn ochr yn ochr â'r Fframweithiau hyn.

12 Mae'r adolygiad hwn yng Nghymru'n ymwneud â Phrentisiaethau Gradd sydd wedi'u lleoli ar lefel 6 yn y FHEQ, ac sy'n gyfatebol â graddau baglor.

Darpariaeth gyfrwng Cymraeg

13 Bydd yr adolygiad yn edrych ar y ffordd y cafodd yr iaith Gymraeg ei hystyried wrth ddarparu rhaglenni Prentisiaeth Gradd a sut mae'n ateb anghenion y prentisiaid a'r cyflogwyr lle mae'n briodol ac yn bosibl gwneud hynny ar gyfer eu harbenigedd hwy.

14 Mae Prentisiaethau Gradd yn darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac mae'n rhaid i'r iaith Gymraeg gael ei thrin yr un mor ffafriol â'r iaith Saesneg, yn unol â'r Safonau Iaith Gymraeg. Bydd yr adolygiad yn ystyried y trefniadau sydd gan y darparwr ar gyfer darparu rhaglenni a chefnogi prentisiaid drwy gyfrwng y Gymraeg, a gallu'r darparwr arweiniol a'i bartneriaid i ateb yr anghenion o ran yr iaith Gymraeg sydd gan y cyflogwyr a'r prentisiaid. Bydd yr adolygiadau hefyd yn ystyried sut y gall prentisiaid Cymraeg gynnal a datblygu eu hiaith Gymraeg yn y gweithle.

Trosolwg o'r meysydd allweddol sydd dan sylw yn yr adroddiad

15 Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol yng nghynllun, strwythur a darpariaeth y Prentisiaethau Gradd sydd wedi'u disgrifio yn y Datganiad o Nodweddion ar gyfer Addysg Uwch mewn Prentisiaethau.[5] Bydd yr adolygiad yn ystyried sut y cefnogir nodweddion arbennig Prentisiaethau Gradd drwy'r pum maes allweddol hyn. Mae materion sydd i dderbyn ystyriaeth ymhob maes allweddol wedi'u crynhoi isod er budd y darparwyr a'r adolygwyr, ac maent yn cynnwys nodweddion penodol darparu Prentisiaethau Gradd yng Nghymru. Nod y pwyntiau isod yw gweithredu fel canllawiau ac ni fwriedir iddynt fod yn grynodeb

Maes allweddol pump: Asesu

20 Bydd strategaethau asesu'n adlewyrchu'r math o ddysgu a dysgwyr, a natur pob elfen o raglen ddysgu'r brentisiaeth. Bydd a

25

¶ Disgrifiad o'r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd sy'n berthnasol i Brentisiaethau Gradd.

¶ Copïau o gytundebau a chontractau megis cytundebau partneriaeth, cytundebau rhwng y cyflogwr, y prentis a'r darparwr addysg uwch, a chontractau dysgu.

¶ Gwybodaeth am y trywydd(au) rhaglen arfaethedig, gan gynnwys rhesymeg dros ddethol y rhaglenni (gwelwch baragraff 53).

¶ Gwerthusiad cryno o'r holl ddarpariaeth Prentisiaeth Gradd o dan bob maes allweddol, wedi'u croesgyfeirio â'r dystiolaeth ddogfennol a gyda ffocws arbennig ar y trywyddau rhaglen. Dylai werthuso pa mor bell mae cynllun a darpariaeth ei raglenni astudio'n cyfateb â nodweddion diffiniol prentisiaethau addysg uwch. Gallai fod yn ddefnyddiol strwythuro'r gwerthusiad yn unol â fframweithiau Prentisiaeth Gradd ac yna gyfeirio'n benodol at y trywydd rhaglen benodol. Pan fydd gan y darparwr dry887 .1u/MCID 29/L(n)-11( )28(d)-

x

Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr

34 Gallai'r darparwr arweiniol a'i Undeb Myfyrwyr gytuno i benodi **Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr**. Rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yw annog cyfranogaeth myfyrwyr yn yr adolygiad a rhoi pob gwybodaeth iddynt am ei gynnydd. Gallai'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr gymryd rhan yn y gwaith o baratoi cyflwyniad y myfyrwyr. Mae'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn gweithio'n agos â'r Hwylusydd i sicrhau cyfathrebu esmwyth rhwng y corff myfyrwyr a'r darparwr. Efallai

47 Caniateir i'r Hwylusydd arsyllu unrhyw rai o'r cyfarfodydd rhwng y tîm a'r darparwr, a rhwng y tîm a chyflogwyr, heblaw'r rheiny gyda myfyrwyr/prentisiaid. Pan fydd yr Hwylusydd yn arsyllu cyfarfod, ni ddylai gymryd rhan mewn trafodaethau heblaw bod y tîm adolygu'n ei (g)wahodd i wneud hynny.

48 Yn ystod ymgysylltiadau adolygu, disgwylir i'r Hwylusydd:

¶ roi cyngor a chyfarwyddyd i'r tîm adolygu am strwythurau, polisïau, blaenoriaethau a gweithdrefnau'r darparwr, a sefydlu cysylltiadau â chyflogwyr

¶ gwrdd â'r Swyddog QAA a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, ac efallai aelodau'r tîm adolygu, y tu allan i'r cyfarfodydd ffurfiol i ddarparu neu geisio rhagor o eglurhad am faterion 44(')55(r(g)11(o)1s(g)11(ysy1(d)-1)5(i)17(a)-11(d)1p)5( )5(b)-11(l)17(a)-uron

¶ pa mor gynrychiadol yw'r trywydd rhaglen arfaethedig yn nhermau darpariaeth gyffredinol y darparwyr yn y fframwaith Prentisiaeth Gradd, y mathau o drefniadau a'r mathau o gyflogwyr

¶ a oes digon o gyfleoedd i ymweld â chyflogwyr i alluogi i sampl gynrychiadol o gyflogwyr a phrentisiaid gyfranogi

¶ a oes cyfleoedd i samplu cyflogwyr/prentisiaid ar wahanol gamau yn natblygiad darpariaeth y darparwr

¶ a oes cyfleoedd i gwrdd â phrentisiaid sy'n gyflogeion cyfredol, yn ogystal â rhai sydd newydd eu cyflogi, ac sydd ar wahanol lefelau astudio.

Dylai'r darparwr arweiniol ddefnyddio'r adroddiad data i gefnogi ei gynigion, a dylai roi digon o gyd-destun i ddethol trywyddau amgen os bydd y tîm adolygu'n barnu bod angen gwneud hynny.

54 Ar sail ei gyfarfod a'i waith dadansoddi, bydd y tîm adolygu'n penderfynu a fydd y trywyddau arfaethedig yn darparu digon o gyfleoedd i werthuso'r meysydd allweddol dan sylw. Bydd y penderfyniad hwn wedi'i gadarnhau erbyn pedair wythnos cyn yr ymweliad adolygu. Os bydd y tîm adolygu'n penderfynu y byddai trywydd(au) rhaglen amgen yn fwy addas i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y meysydd allweddol dan sylw, rhoddir gwybod am hyn i'r darparwr arweiniol ar y pwynt hwn.

55 Unwaith y bydd y trywyddau rhaglen wedi'u cadarnhau, bydd y Swyddog QAA yn mynd ati gyda'r darparwr arweiniol i drafod ffactorau sydd i gael eu hystyried wrth ddethol y cyflogwyr sydd i dderbyn ymweliad, megis hygyrchedd y safleoedd, y staff a'r prentisiaid sydd ar gael i'r tîm, a'r amserlenni a'r trefniadau ar gyfer ymweliadau/cyfarfodydd ar y safleoedd.

56 Yn rhan o'r sail tystiolaeth sy'n ategu'r ddogfen hunanwerthusiad, gofynnir i'r darparwr ddarparu dogfennau diffiniol pob rhaglen ar gyfer y trywydd(au) rhaglen arfaethedig, megis yr adroddiad dilysu, manylebau'r rhaglen, disgrifwyr/canllawiau'r modiwlau a llawlyfr y rhaglen.

Gweithgareddau yn ystod yr adolygiad

57 Bydd patrwm yr adBT/F1 3a4(yr)-7(ch)11(e)-11(d)11(d)11(a)-4(yd)11(d)-11(()15(a)-11(u)-11())-7( )2

Cyfranogaeth cyflogwyr

59 Mae rôl y cyflogwyr yn y dyfarniadau hyn yn bwysig, ac mae'r cyflogwyr yn chwarae rhan arwyddocaol yn y broses adolygu. Bydd gwahoddiad i gyflogwyr gyfrannu at yr adolygiad drwy gwblhau holiadur a derbyn ymweliad gan y tîm adolygu. Bydd adolygwyr eisiau dysgu am fanteision a heriau'r dysgu seiliedig ar waith a dysgu cysylltiedig â gwaith, a byddent yn

Yr amserlen ar gyfer adolygiadau

66 Bydd yr adolygiadau'n digwydd yn ystod tymhorau hydref a gwanwyn blwyddyn academaidd 2020-21. Bydd QAA yn ymgynghori â'r darparwr arweiniol i sicrhau amseriad priodol ar gyfer yr adolygiad. Mae amserlen i'w chael yn Atodiad A sy'n amlinellu'r prif

Y gwerthusiad

73 Bydd QAA yn annog darparwyr arweiniol, y Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr, cyflogwyr, adolygwyr a Swyddogion QAA adolygu i gyfrannu at werthusiad o'r broses adolygu drwy wahodd sylwadau am yr adolygiadau y maent wedi cymryd rhan ynddynt.

Atodiad A: Amserlen y rhaglen adolygu

Mis	Gweithgareddau
Awst 2020	Cyfnod ymgynghori
Medi	Yr ymgynghoriad yn cau ar ddydd Llun 14 Medi
Hydref	Cyhoeddi fersiwn terfynol o'r llawlyfr yn yr wythnos yn cychwyn 5 Hydref QAA yn cynnal sesiwn briffio i ddarparwyr ar ffurf gweminar Darparwyr arweiniol yn derbyn manylion yr amserlenni a hysbysiad am aelodaeth y timau adolygu Dechrau paratoi'r dogfennau hunanwerthuso a chyflwyniad y myfyrwyr
Tachwedd	Cwblhau'r timau adolygu a manylion yr amserlen Gofyn i ddarparwyr arweiniol ddosbarthu holiaduron i gyflogwyr a myfyrwyr ar draws eu darpariaeth

Atodiad C: Cyflwyniad y myfyrwyr

Mae cyflwyniad y myfyrwyr yn ffordd i fyfyrwyr, drwy eu corff cynrychioli, roi gwybod i'r tîm adolygu cyn yr ymweliad adolygu am faterion a ystyriant yn berthnasol i bwrpas yr adolygiad. Mae'n gyfle i roi argraff i'r tîm adolygu o'r profiad o fod yn fyfyriwr ac yn brentis ar y rhaglenni, o safbwyntiau academaidd a'r gweithle. Mae QAA yn annog cyrff cynrychioli'r myfyrwyr i ddefnyddio'r cyfle hwn i hysbysu timau adolygu am eu barn a'u tystiolaeth, ac i weithio'n agos â'r darparwr arweiniol.

Dylai cyflwyniad y myfyrwyr gynnwys ymateb gan y myfyrwyr i hunanwerthusiad y darparwr arweiniol. Dylai hwn fod yn fyr, ond gall fod yn destun naratif neu'n bwyntiau bwled. Os bydd y corff cynrychiolwyr a'r darparwr arweiniol eisiau cyflwyno hunanwerthusiad ar y cyd, mae hyn yn dderbyniol cyhyd ag y bo'r ddogfen yn egluro bod yr hunanwerthusiad yn adlewyrchiad go iawn o farn y myfyrwyr/prentisiaid ac yn esbonio'n glir y broses a ddefnyddiwyd i sicrhau eu cyfranogaeth.

Ffurf, hyd a chynnwys

Ni ddylai'r cyflwyniad fod yn hirach na 4,000 o eiriau a dylai esbonio'r ffynonellau tystiolaeth a hysbysodd ei sylwadau a'i gasgliadau. Mae modd defnyddio fformatau eraill yn lle cyflwyniad ysgrifenedig neu fel deunyddiau i ategu'r prif gyflwyniad. Mae canllaw ar wahân ar gael gan QAA i helpu gyda'r opsiynau hyn os dewisir y dull hwn.[8]

Mae'n rhaid i'r cyflwyniad gynnwys datganiad i esbonio sut y cafodd ei gasglu, pwy yw ei awdur, ac i ba raddau y mae ei gynnwys wedi'i rannu gyda, a'i ardystio gan, y myfyrwyr i gyd sy'n astudio ar

Ni ddylai'r cyflwyniad: